

## Rhoi trefn arnoch chi eich hun, eich astudiaethau, a'ch aseiniadau



"Pan fyddaf yn cael aseiniad, byddaf yn edrych arno, yn rhoi y cyfarwyddiadau yn fy mag ac yn anghofio amdano tan bythefnos cyn y dyddiad cau. Yna byddaf yn mynd i banig ac yn rhuthro trwy'r gwaith."

Pan fyddwch yn gwneud aseiniadau ac astudio hunan-gyfeiriedig, gall bod yn drefnus **leihau straen yn aruthrol**. Bydd hefyd yn helpu i wella eich marciau.

1. Pan fyddwch **yn cael aseiniad**, nodwch y dyddiad cau mewn cynlluniwr neu galendr.
2. Yna edrychwch ar y cyfanswm geiriau a lluniwch gynllun bras.
3. Yn gyntaf **rhannwch y traethawd yn 3 rhan**: cyflwyniad, casgliad a'r prif gorff. Mae pob adran yn werth canran o'r cyfanswm geiriau. Fel rheol mae'r rhagarweiniad yn werth 10%, y casgliad yn werth 10%, a phrif gorff y gwaith yn werth y gweddill, sef 80%.

Dyma **enghraifft** o draethawd 1000 o eiriau:

- a. Rhagarweiniad 10% = 100 o eiriau
  - b. Prif gorff 80% = 800 o eiriau
  - c. Casgliad 10% = 100 o eiriau
4. Yna **rhannwch brif gorff y gwaith ymhellach** yn wahanol rannau'r drafodaeth. Er enghraifft:
- a. Rhagarweiniad 10% = 100 o eiriau
  - b. Adran 1 40% = 400 o eiriau
  - c. Adran 2 40% = 400 o eiriau
  - d. Casgliad 10% = 100 o eiriau
5. Gallwch chi barhau i rannu aseiniad hyd nes eich bod wedi creu'r holl adrannau sydd eu hangen.
6. Un fantais o wneud cynllun traethawd yw y bydd yn rhoi syniad i chi o rywfaint o'r ymchwil y bydd angen i chi ei wneud. Er enghraifft, chwilio am ymchwil sy'n cynrychioli dwy ochr y ddadl.
7. A chynllun eich traethawd wedi ei wneud, gallwch ddechrau meddwl am **gynllunio eich amser**. Gofynnwch i chi eich hun faint o amser fydd ei angen arnoch i ymchwilio / darllen y deunyddiau perthnasol - wythnos/pythefnos?
8. Oes angen i chi drefnu amser i fynd i'r llyfrgell? Oes angen i chi ofyn unrhyw gwestiynau i'ch darlithydd? Ydych chi am drafod y gwaith gyda ffrindiau?

9. Gorau po gyntaf y gallwch ateb y cwestiynau hyn er mwyn i chi allu fwrw ymlaen â'r aseiniad a'i orffen yn hytrach na'i anwybyddu nes ei bod bron yn rhy hwyr.
10. Bydd cael cynllun yn rhoi amser i chi i chwilio am gymorth os bydd ei angen arnoch. Byddwch yn **dawel eich meddwl** o wybod eich bod yn cadw at eich amserlen gwaith.
11. **Gwnewch restr** o'r holl bethau gwahanol sydd angen eu gwneud ar gyfer yr aseiniad.
12. **Cofnodwch bob cyfeiriad wrth i chi ddod o hyd iddo.** Cofnodwch nhw yn y fformat priodol, bydd hyn yn arbed llawer o amser ar y diwedd.
13. Ceisiwch orffen pob aseiniad wythnos o leiaf cyn ei gyflwyno. Bydd hyn yn rhoi **amser i chi i anghofio yr aseiniad** a phan fyddwch yn ei ail-ddarllen cyn ei gyflwyno, bydd unrhyw broblemau/camgymeriadau'n sefyll allan.
14. Peidiwch byth â gadael aseiniad tan y diwrnod/munud olaf. **Mae'n digwydd yn aml bod myfyrwyr yn cael trafferth cyflwyno trwy Blackboard a Turn-It-In ar y dyddiad cau.**

